

❖ MYFYRDOD AR GYFER YR ADFENT

Prin iawn, ar y gorau, yw'r sylw a'r pwyslais a roddwn fel anghydfurfwyr i'r Tymhorau Eglwysig a 'dyw'r Adfent ddim yn eithriad.

Cyfnod ac adeg i baratoi ar gyfer dathlu'r Nadolig yw hwn a cheir digon o baratoi allanol fisoedd, wir, cyn yr ŵyl, ond fel y cyfeiriodd y diweddar Edwin Davies (mewn myfyrdod yn y *Western Mail*), 'Cyfle a chyfnod i gymryd stoc fewnol yw'r adfent a'n galw i baratoi.'

Un a'n cynorthwya i baratoi yw Ioan Fedyddiwr wrth floeddio geiriau'r proffwyd Eiseia, i groesawu dyfodiad yr Iesu: "Llais un yn galw yn yr anialwch, 'Paratowch ffordd yr Arglwydd, unionwch y llwybrau iddo. Caiff pob ceulan ei llenwi, a phob mynydd a bryn ei lefelu; gwneir y llwybrau troellog yn union, a'r ffyrdd garw yn llyfn; a bydd y ddynolryw oll yn gweld iachawdwriaeth Duw.'"

Mae'r geiriau dramatig hyn yn darlunio teyrnas newydd yn llawn chwyldro! Gyda'r fath ddisgrifiad, rhydd Ioan bedwar darlun o'r deyrnas oedd ar ddod: ceulannau wedi eu llenwi, mynyddoedd wedi eu lefelu, llwybrau troellog wedi eu hunioni a ffyrdd garw wedi eu llyfnhau. Ysgytwad radical a newidiadau syfrdanol yn ôl y gŵr unigryw hwn, fyddai'n nodweddu Teyrnas Iesu Grist.

Nid oes amheuaeth bod ei neges yn glir, gyda'r 'hen ffyrdd' yn cael eu newid am 'ffyrdd newydd' Brenhiniaeth Iesu o'i chymharu â'r hen drefn Iddewig a syniadau crefyddwyr traddodiadol gwlad Iesu. Nid ar chwarae bach y daw'r newid ac y gwireddir y fath weledigaeth. Rhaid paratoi ar gyfer pob chwyldro. Rhaid i ninnau hefyd o fewn cyfundrefn grefyddol ein dydd sylweddoli bod mawr angen arnom baratoi ein hunain i groesawu Chwyldro'r Crist am fod Ei ddyfodiad yn ein herio i newid ein syniadau fel yr heriodd grefyddwyr Palesteina. Paratoi ar gyfer y fath Chwyldro a wna Ioan i alluogi pobl i 'weld iachawdwriaeth Duw'.

Gwedd: Cynorthwya ni i sylweddoli'r angen i baratoi yn ysbrydol cyn y medrwn iawn werthfawrogi a gweithredu Ffordd yr Arglwydd am fod Ei Neges yn chwyldroadol. Amen.

Darllen: 'Plentyn y Ddaear' – Waldo Williams, gan fyfyr:

'... Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain,
Daw dydd ni bydd mwy y rhai mawr,
Daw'r bore ni wêl ond brawdoliaeth
Yn casglu teuluoedd y llawr...'

Wynn Vittle